

I Weinidogion Cymru,

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013: Adroddiad Blynyddol ar Deithio Llesol

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod mae Adroddiad Blynyddol **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam**.

- **Camau a gymerwyd i hyrwyddo teithiau llesol**

Wreccsam Cysylltiedig yw Cynllun Symud Trefol Cynaliadwy **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam** ar gyfer 2016.

Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol cludiant yn Wreccsam, sy'n galluogi trigolion i wneud dewisiadau teithio iach, egnïol, diogel a chynaliadwy. Mae'r cynllun yn cefnogi Canolbwynt Cludiant Cyffredinol Wreccsam a Chynllun Symud Trefol Cynaliadwy (CSTC) 2016 Wreccsam. Mabwysiadu egwyddorion a gweledigaethau'r CSTC a datblygu ystod o brosiectau sy'n unol â safiad presennol Llywodraeth Cymru ar y CSTC a'r Cynllun Datblygu Lleol, gan roi cefnogaeth gref i bob safle strategol er mwyn iddynt fod yn hygyrch drwy gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

1 Diogelwch Ffyrdd – Addysg, Hyfforddiant, Cyhoeddusrwydd a Pheirianeg.

- 1.1 Mae'r rhaglen ddatblygu Addysg a Hyfforddiant Diogelwch Ffyrdd yn parhau i gael ei darparu i ddisgyblion ysgolion babanod, cynradd ac uwchradd yn Wreccsam a myfyrwyr yng Nghampws Iâl, Coleg Cambria, Wreccsam.
- 1.2 Mae Hyfforddiant Beicio Sylfaenol Cenedlaethol, Lefel 1 a 2, yn cael ei gynnig i holl ddisgyblion Blwyddyn Chwech y Sir. Yn ystod 2015/16, fe lwyddodd 675 o ddisgyblion i gwblhau'r cwrs hyfforddi.
- 1.3 Mae hyfforddiant cerdded Kerbcraft i blant wedi'i ddarparu i 1,112 o ddisgyblion blwyddyn 1 mewn 20 o ysgolion cynradd yn ystod 2015/16.
- 1.4 Cynllun Diogelwch Ffyrdd Plant Iau – mae nifer fechan o ysgolion cynradd yn parhau, yn annibynnol, i gefnogi'r cynllun a oedd yn cael ei reoli yn y gorffennol gan bersonél diogelwch ffyrdd ar y cyd â'r disgyblion.
- 1.5 Cynllun Diogelwch Ffyrdd Plant Iau – mae swyddogion Wreccsam yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid Sustrans mewn ysgolion cynradd lleol i gyflawni prosiectau teithio llesol.
- 1.6 Mae cynlluniau Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi'u cwblhau yn ardaloedd Plas Madoc a Rhos yn y sir.

2 Ymgynghoriad ar Deithio Llesol ac Ymgysylltu

- 2.1 Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ymgynghoriad statudol, 12 wythnos o hyd ar ei fap o lwybrau presennol ar gyfer teithio llesol o 25 Medi tan 11 Rhagfyr 2015. Er bod yr ymgynghoriad yn bennaf yn ceisio hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â llwybrau teithio llesol arfaethedig ar y map llwybrau presennol drafft, roedd hefyd yn hyrwyddo teithio llesol drwy wahanol weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- 2.2 Cyhoeddodd Swyddfa'r Wasg CBSW yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor, gan drefnu cyhoeddusrwydd yn y wasg yn lleol. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol hefyd, fel Facebook a Twitter. Yn ychwanegol at hynny, anfonwyd negeseuon e-bost i ddod o hyd i bartneriaid darparu, a wahoddwyd i adolygu ac ymateb i'r ymgynghoriad. Ar ben hynny, yn ystod yr ymgynghoriad, fe gyhoeddodd y Cyngor ddatganiadau i'r wasg gyda lluniau ac fe gynhaliwyd gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo teithio llesol.
- 2.3 Bu i'r Aelod Seneddol lleol, Ian Lucas, hefyd ddangos ei gefnogaeth.
- 2.4 Yn ychwanegol at yr holiadur a'r ymgyrch cyhoeddusrwydd, cynhaliwyd 2 ddigwyddiad a oedd, yn benodol, yn targedu pobl ifanc ac un o gyflogwyr mwyaf Wrecsam – staff CBSW. Bu swyddogion o'r Awdurdod a Sustrans mewn sesiwn galw heibio yng Ngholeg Cambria, Iâl, Wrecsam i ymgynghori ar a hyrwyddo'r Rhaglen Teithio Llesol ar 10 Rhagfyr 2015 ac fe gynhaliwyd digwyddiad yn nigwyddiad Staff Iach CBSW ar 4 Tachwedd 2015, ac fe ddaeth 400 o staff CBSW iddo.

3 Cynlluniau Arwyddion

- 3.1 Mae cynllun arwyddion wedi'i greu a'i gyflwyno i hyrwyddo'r llwybr beics dynodedig i/o ganol y dref i Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.
- 3.2 Mae adolygiad blynyddol ar osod arwyddion cyfeirio newydd a physt arwyddion ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am lwybrau cerdded dynodedig.

4 Gwefannau/Cyfryngau Cymdeithasol/Cyhoeddiadau

- 4.1 Wrecsam Cysylltiedig – mae'n darparu dewisiadau teithio i bawb ac yn cefnogi Canolbwynt Cludiant Cyffredinol a Chynllun Symud Trefol Cynaliadwy (CSTC) 2016 Wrecsam. Mabwysiadu egwyddorion a gweledigaethau'r CSTC a datblygu ystod o brosiectau sy'n unol â safiad presennol Llywodraeth Cymru ar y CSTC a'r Cynllun Datblygu Lleol, gan roi cefnogaeth gref i bob safle strategol er mwyn iddynt fod yn hygyrch drwy gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus.
- 4.2 Mae tudalen we deithio wedi'i datblygu ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â theithio llesol gyda chysylltiadau defnyddiol i sawl safle fel Sustrans a Newid am Oes y GIG – Teithio Llesol.

- 4.3 Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelwch ffyrdd, hawliau tramwy, beicio a dogfennau defnyddiol eraill sy'n ymwneud â theithio llesol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan CBSW.
- 4.4 Mae hawliau tramwy cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi'n cael eu hyrwyddo ar wefan y Cyngor. Mae'r wybodaeth yn cynnwys mapiau ar-lein, teithiau cerdded dynodedig a llwybrau reidio. Mae nifer o daflenni gwybodaeth hefyd ar gael ar-lein ac mae modd eu lawrlwytho a'u hargraffu.

5 Cynlluniau

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithio i gyflawni'r pum ffordd gynaliadwy o weithio o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Teithio Llesol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:-

- 5.1 Cynllun Beicio i'r Gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 5.2 Cynllun Teithio Staff ac Aelodau – codi ymwybyddiaeth o fathau mwy cynaliadwy o deithio gan geisio dylanwadu ar newid arferion.
- 5.3 Prosiect Teithiau Llesol – mae ysgolion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cynlluniau teithio llesol a chynlluniau llwybrau diogel i ysgolion. Mae ein partneriaid, Sustrans, yn gweithio ar y cyd â swyddogion yn yr ysgolion cynradd sydd wedi'u dewis drwy broses ymgeisio drwy Addysg a Chludiant bob blwyddyn.
- 5.4 Cynllun Iechyd Corfforaethol – wedi cyrraedd safon aur hyd yma. Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at y safon blatinwm.

6 Digwyddiadau Cenedlaethol a Lleol

- 6.1 Mae Diwrnod Beicio i'r Gwaith (eleni – 14 Medi 2016) yn cael ei hyrwyddo ar wefan y Cyngor a'r fewnwyd yn ogystal ag ar gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus.
- 6.2 Taith Prydain, Medi 2015 – cynhaliodd Wrecsam rownd derfynol fawreddog cymal 1^{af} y daith y llynedd.
- 6.3 Digwyddiad beicio Mark Cavendish – digwyddiad beicio'n croesi'r ffin o Swydd Gaer i Wrecsam.

Mae'r digwyddiadau beicio hyn wedi helpu i amlygu a phoblogeiddio beicio yn Wrecsam, yn ogystal â hyrwyddo'r manteision cysylltiedig o ran iechyd a chost o ddewis beicio fel math mwy cynaliadwy o gludiant.

7 Cynllunio Teithio

- 7.1 Yn rhan o gylch gorchwyl Cydgysylltydd y Cynllun Teithio Rhanbarthol, mae themâu teithio cynaliadwy'n cael eu hyrwyddo'n rheolaidd i annog teithiau llesol mewn lleoliadau allweddol fel Campws Iâl, Coleg Cambria, Wrecsam.

7.2 Mae cynlluniau teithio wedi'u sicrhau drwy'r broses gynllunio, sy'n cynnwys mesurau i annog teithiau llesol mewn ardaloedd sy'n cynnwys Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, datblygiadau preswyl mawr a chyfleusterau iechyd ac addysg.

Mae'r mesurau'n amrywio ar gyfer pob cynllun teithio ac fe allent gynnwys gwell isadeiledd, darparu lle diogel i storio beiciau, darparu cyfleusterau newid ar gyfer cerddwyr/beicwyr, cynlluniau beicio, darparu mapiau a gwybodaeth arall i annog teithiau llesol.

- **Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig – 2015/16**

8 Isadeiledd a sicrhawyd drwy gyllid uniongyrchol, cyllid grantiau a'r rhai a drafodwyd yn rhan o'r broses gynllunio.

8.1 Porth y Gorllewin – isadeiledd wedi'i drafod yn rhan o'r broses gynllunio. Llwybr cerdded/beicio cyfun gyda chyfleusterau storio. Mae llwybrau cerdded dynodedig i ganol y dref hefyd wedi'u darparu yn rhan o'r broses gynllunio.

8.2 Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam – Ffordd De Clywedog. Llwybr cerdded/beicio cyfun ar y ffordd ddynesu o ganol y dref i brif ardal ddiwydiannol y sir.

8.3 Ffordd Cefn at Lôn Rhydfudr, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. Llwybr cerdded/beicio a rennir wedi'i greu – nid oedd cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio ar y ffordd ddynesu hon at yr ystâd ddiwydiannol ynghynt.

8.4 Pentref Johnstown. Mae 2 groesfan newydd i gerddwyr wedi'u gosod ar y prif ffyrdd dynesu at yr ysgol.

8.5 Arwyddion rhybuddio rhyngweithiol sy'n tynnu sylw gyrwyr at gyfyngiadau cyflymder is, yn enwedig o amgylch ysgolion, er mwyn annog mwy i gerdded i'r ysgol.

8.6 Cynllun i gyflwyno cyfyngiadau o 20mya y tu allan i 60 o ysgolion dros gyfnod o 7 mlynedd yn datblygu. Cwblhawyd 5 ysgol yn ystod 2015/16. Mae'r datrysiadau peirianyddol yn cael eu cefnogi gan weithgareddau addysg a chyhoeddusrwydd yn yr ysgolion ac mae'r disgyblion yn cael eu gwahodd i roi cynnig ar gystadleuaeth i ddylunio arwydd a fyddai'n rhybuddio gyrwyr am y cyfyngiadau cyflymder newydd ar y ffyrdd dynesu at ac o amgylch yr ysgolion.

8.7 Mae adolygiadau o gyfyngiadau cyflymder yn cael eu cynnal ar ffyrdd A a B – bydd arafu cerbydau ar ffyrdd trefol yn cynorthwyo i annog mwy i gerdded a beicio.

9 Cynlluniau Eraill – 2016/17

9.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi sicrhau grant o £179,000 drwy'r gronfa Cludiant Lleol ar gyfer 2016/17 i ddarparu isadeiledd teithio llesol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cynlluniau canlynol:-

- Ffordd Rhuthun, Wrecsam – llwybr cerdded beicio a rennir a gwell arwyddion.
- Cylchfan Rhyd Broughton – palmant botymog ar lwybrau cerdded dynesu.
- Rheilffordd Gatewen – llwybr cerdded/beicio a rennir a gwell arwyddion.

Bydd cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn cael ei ddefnyddio i barhau â chynlluniau 20mya y tu allan i ysgolion. Mae grant o £79,200 wedi'i sicrhau ar gyfer 2016/17.

Mae cyllid addysg, hyfforddiant a chyhoedduswydd diogelwch ffyrdd wedi'i sicrhau er mwyn darparu hyfforddiant beicio sylfaenol cenedlaethol - £27,972 a Kerbcraft - £24,986.

9.2 Uwchraddiad i oleuadau stryd – bydd dros 2,000 o oleuadau stryd yn cael eu huwchraddio i lampau LED.

- **Costau am lwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol.**

10 Dyrannwyd £273,200 o gyllid i Fwrdeistref Sirol Wrecsam o Gronfa Cludiant Lleol yn 2015-16. Defnyddiwyd hwn ar gyfer y cynlluniau canlynol:-

- Mapiau teithio llesol
- Cysylltiad teithio llesol – gwell mynediad i Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam
- Cysylltiad teithio llesol – gwell mynediad i Ystâd Ddiwydiannol Vauxhall

11 Monitro a Gwerthuso

11.1 Cynlluniau peirianeg cyfalaf

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn monitro pob prosiect peirianeg cyfalaf cyn ac ar ôl cyflwyno'r cynllun. Mae data'n cael ei gofnodi, ei gasglu a'i ddadansoddi ac mae gwerthusiad yn cael ei gynnal yn rhan o'r rhaglen fonitro.

11.2 Addysg, hyfforddiant a chyhoedduswydd

Mae'r holl gynlluniau diogelwch ffyrdd yn cael eu monitro a'u gwerthuso ar y cyd â data a ddarparwyd gan ddadansoddwr Heddlu Gogledd Cymru. Mae data cyn ac ar ôl y cynllun yn cael ei ddadansoddi i olrhain cynnydd ar effeithiolrwydd y cynllun ar leihau damweiniau a newid arferion.

Mae'r holl waith monitro a gwerthuso'n cael ei adrodd yn ôl wrth Lywodraeth Cymru yn rhan o'r telerau a'r amodau wrth ddyrannu cyllid grantiau i'r Awdurdod.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r canllawiau cyflawni statudol, ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Y Prif Weithredwr